cyngor ar bopeth

citizens advice bureau

ofgem

# YNNI
# Y FARGEN ORAU

Awst 2012



Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan Ofgem, Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland fel arweiniad i sicrhau eich bod yn cael y fargen orau gan eich cyflenwyr ynni. Mae hefyd yn dangos y cymorth sydd ar gael gan gyflenwyr ynni a'r Llywodraeth os ydych yn profi anawsterau wrth geisio talu eich biliau ynni.

# Enghreifftiau o gymorth a gafwyd drwy **Ynni – y Fargen Orau**

Cafodd Jill lawer o alwadau ffôn a llythyrau'n dweud bod ganddi hawl i gael grant i insiwleiddio'r atig yn ei chartref gan fod ei gŵr dros 65 oed. Roedd yn amheus iawn o'r cynigion hyn ac yn ofni mai twyll oedd y cyfan. Yna aeth Jill i weithdy Ynni – y Fargen Orau lle dysgodd bod y rhain yn gynigion dilys wedi'r cyfan, a bod ei chyflenwr ynni yn darparu'r gwasanaeth. Ar ôl y gweithdy Ynni – y Fargen Orau cysylltodd Jill â'i chyflenwr a threfnwyd bod ei hatig yn cael ei insiwleiddio am ddim.

Aeth Margaret i weithdy Ynni - y Fargen Orau yn Lerpwl. Y diwrnod canlynol cysylltodd â'r hyfforddwr i ddweud ei bod wedi ffonio ei darparwr ynni'n syth ar ôl mynd adref, a bod y cwmni wedi'i throsglwyddo i dariff arall, rhatach ac o ganlyniad mae ei thaliad wythnosol wedi gostwng i £20.00. Mae hyn yn golygu ei bod yn arbed bron i £500.00 mewn blwyddyn.



Mae'r holl wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir ym mis Awst 2012.

I wneud yn siŵr eich bod yn cael y fargen orau wrth ddefnyddio ynni, gofynnwch y cwestiynau hyn i chi eich hun bob blwyddyn:

- A fyddai newid cyflenwr / wyr yn arbed i mi?
- A wyf yn gymwys i gael budd-daliadau lles?
- A wyf yn gymwys i gael grant i wella'r insiwleiddio ac effeithlonrwydd ynni fy nghartref?
- A wyf ar y tariff ynni gorau[1] (yn ddibynnol ar eich anghenion)?
- A wyf ar yr opsiwn taliadau gorau?[2]

Mae'n haws nag erioed erbyn hyn i chwilota a dewis y fargen ynni orau. Mae'n ofynnol yn awr i gyflenwyr:

- roi gwybodaeth fwy eglur ar filiau
- paratoi datganiad blynyddol i chi (sy'n rhoi manylion am eich tariff, faint o nwy a thrydan a ddefnyddiwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gyda'r cyflenwr hwnnw, amcangyfrif (mewn punnoedd) o gost cyflenwad y 12 mis nesaf)
- caniatáu i gwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion cerdyn, allwedd neu daleb i newid cyflenwr hyd yn oed os oes ganddynt ddyledion o hyd at £500
- peidio â chodi mwy arnoch am un math o ddull talu nag un arall, oni ellir cyfiawnhau'r taliadau gan y gost.

Os byddwch yn cael sgwrs â chynrychiolydd gwerthu sy'n curo ar eich drws neu sydd â stondin mewn archfarchnad, mae'n bwysig cofio efallai mai dim ond i un cyflenwr ynni maent yn gweithio felly dim ond yr hyn sydd gan yr un cwmni hwnnw i'w gynnig a ddangosir i chi. Mae'n bwysig bod yr wybodaeth ar eich datganiad blynyddol neu'ch biliau diweddaraf gennych ar y pryd wrth i chi ystyried unrhyw gynnig arall.

1 Mae nifer o dariffau gwahanol, ac mae'r enghreifftiau'n cynnwys: ar-lein; sefydlog; tanwydd sengl neu dariff tanwydd deuol;

2 Mae nifer o opsiynau talu gwahanol ar gael, er enghraifft rhagdalu, talu ag arian neu siec bob chwarter neu ddebyd uniongyrchol.

# Sut i gael y fargen orau

Bydd yn rhaid i chi gael yr wybodaeth ganlynol i ddechrau:

- enw'r tariff rydych arno ar hyn o bryd (os nad ydych yn gwybod, gofynnwch i'ch cyflenwr)
- faint oeddech chi wedi'i wario ar ynni yn y flwyddyn ddiwethaf
- faint ydych chi'n ei dalu am eich ynni ar hyn o bryd
- eich cod post.

Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar y datganiad blynyddol mae'ch cyflenwr yn ei roi i chi yn ogystal ag ar eich bil.

Gallwch ddod i wybod am fargeinion ynni a all fod yn rhai gwell drwy:

- holi eich cyflenwr neu edrych ar eu gwefan
- defnyddio un o'r gwasanaethau cymharu prisiau ar-lein cymeradwy a restrir ar wefan Llais Defnyddwyr yn **www.consumerfocus.org.uk**
- os nad oes gennych fynediad at y rhyngrwyd gallwch ffonio gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar **08454 040506** i ofyn am daflen wybodaeth am y prisiau yn eich ardal neu i gael cyngor cyffredinol
- cysylltu â chyflenwyr eraill i gymharu eu cynigion (rhoddir eu rhifau ar ddiwedd y llyfryn hwn).



# Pethau i'w hystyried

Mae cyflenwyr ynni'n cynnig amrywiaeth eang o opsiynau talu ond mae'n bwysig ystyried yr anfanteision yn ogystal â'r manteision sy'n gysylltiedig â phob trefniant talu, ar sail eich amgylchiadau personol chi, cyn penderfynu pa ddull sydd orau i chi.

## DULLIAU TALU

- **Taliadau wythnosol/pythefnosol/misol**

  ✓ taliadau bach yn rheolaidd

  ✗ gall rhai Swyddfeydd Post a banciau godi tâl am ddefnyddio'r cyfleuster hwn i dalu

  Mae'n addas fel arfer i aelwydydd heb gyfrifon banc a rhai sy'n ad-dalu dyledion.

- **Mesurydd cerdyn/mesurydd taleb /mesurydd allwedd**

  ✓ eich galluogi i drefnu eich cyllideb yn ôl eich modd

  ✗ os yw'r credyd yn darfod credyd argyfwng cyfyngedig yn unig fydd ar gael cyn i'r cyflenwad gael ei ddatgysylltu

  Mae'n addas gan amlaf i bobl sydd am osgoi mynd i ddyled neu sydd eisiau rheoli dyled sydd ganddynt eisoes.



- **Tanwydd Uniongyrchol**

  ✓ telir am yr ynni a ddefnyddir ar y pryd a bydd y ddyled yn cael ei thynnu'n uniongyrchol o fudd-daliadau

  ✗ os byddwch yn defnyddio mwy na'r hyn a dynnir o'ch budd-daliadau, bydd eich dyled yn cynyddu ac felly hefyd eich taliadau yn y dyfodol

  Mae'n addas fel arfer i gwsmeriaid sy'n cael anhawster ceisio rheoli eu harian a rhai sydd ar rai budd-daliadau.

- **Debyd uniongyrchol / archeb sefydlog misol neu chwarterol**

  ✓ gwneir taliadau ar yr un adeg bob mis a thelir yr un faint bob mis hefyd, gall helpu pobl i gadw trefn ar eu cyllideb

  ✗ mae perygl o dalu gormod neu rhy ychydig os mai amcangyfrif yw'r biliau

  Mae'n addas fel arfer i aelwydydd ag incwm rheolaidd neu sydd â chyfrif banc / cymdeithas adeiladu.

Os oes gennych ddyled heb ei thalu i'ch cyflenwr ynni ac os ydych yn ceisio newid i gyflenwr arall, mae perygl y cewch eich 'blocio oherwydd dyled'. Mae hyn yn golygu bod gan eich cyflenwr nwy neu drydan presennol hawl i'ch rhwystro rhag eu gadael tan y byddwch wedi talu'r ddyled iddynt. Ni all eich cyflenwr eich rhwystro os mai hwy sydd ar fai am eich dyled, er enghraifft o ganlyniad i gamddarllen mesuryddion neu broblemau â biliau.

Os ydych yn defnyddio cerdyn, taleb neu allwedd ac os oes arnoch lai na £500 i'ch cyflenwr ynni, mae gennych hawl i newid cyflenwr a throsglwyddo'ch dyled i'r cyflenwr newydd. Drwy wneud hyn gallwch elwa ar bris is am eu hynni sy'n golygu y gallech ad-dalu'ch dyled yn gyflymach.

Os ydych mewn dyled i gyflenwr nwy neu drydan ac yn cael trafferth talu neu os na allwch gytuno ar gynllun talu â hwy, dylech gysylltu â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth.

Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr ynni'n cynnig tariffau pris sefydlog; gall y rhain fod yn rhatach na thariffau eraill ond dylech sylweddoli efallai y bydd yn rhaid i chi ddefnyddio taliadau debyd uniongyrchol; bydd yn rhaid i chi amseru pethau'n ofalus wrth newid i fargen arall ar ddiwedd y contract a gallech gael eich cosbi os byddwch yn newid cyn diwedd y fargen/cynnig arbennig.

# Ar ôl penderfynu ar y **fargen ynni orau...**

Os ydych am aros gyda'ch cyflenwyr presennol ond yn bwriadu newid i opsiwn talu neu dariff gwahanol bydd eich cyflenwr yn gwneud y newidiadau ar eich rhan. Os ydych chi wedi dewis cyflenwr newydd...

1 **Cytunwch ar gontract:** un ai wyneb yn wyneb â staff gwerthu'r cwmni; dros y ffôn neu ar y rhyngrwyd. Ni ddylai'r broses o drosglwyddo o un cwmni i un arall gymryd mwy na thair wythnos ar ôl diwedd y cyfnod ailfeddwl.

2 **Cyfnod ailfeddwl:** dylai'r cyflenwyr eich ffonio neu ysgrifennu atoch i wneud yn siŵr eich bod yn deall y contract rydych wedi'i llofnodi a'ch bod yn hapus â'r ffordd y gwerthwyd y pecyn i chi. Mae gennych hawl i ganslo'r contract o fewn cyfnod o saith diwrnod.





3 **Rhowch wybod i'ch cyflenwr presennol:** un ai drwy ysgrifennu atynt neu eu ffonio. Os nad ydynt yn gwybod eich bod eisiau newid gallant rwystro'r trosglwyddo. Mewn rhai amgylchiadau gall y cyflenwr presennol eich rhwystro rhag newid i gyflenwr newydd – bydd hyn yn digwydd gan amlaf os oes dyled heb ei thalu a bod y cyflenwr presennol yn mynnu bod y ddyled yn cael ei thalu cyn caniatáu i chi drosglwyddo.

4 **Talwch unrhyw filiau dyledus:** neu gall y cyflenwr atal y trosglwyddo. Dylech ganslo unrhyw Ddebyd Uniongyrchol neu Archeb Sefydlog a sefydlwyd i dalu'r cyflenwr presennol.

5 **Darllenwch eich mesurydd:** bydd y cyflenwr newydd yn darllen y mesurydd (neu'n gofyn i'r cwsmer ei ddarllen) ar adeg y trosglwyddo. Bydd yr hen gyflenwr yn defnyddio darlleniad y mesurydd i gyfrifo'r bil terfynol a bydd y cyflenwr newydd yn ei ddefnyddio i agor y cyfrif newydd. Cadwch nodyn o'r ffigur hwn rhag ofn y bydd unrhyw anghydfod yn codi yn y dyfodol.

Os cewch unrhyw broblemau yn ystod y trosglwyddo gallwch gysylltu un ai â'ch cyflenwr newydd neu'r hen un neu wasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth.

# **Prynu ar y cyd** –
# dewis arall i arbed arian

**Prynu neu newid ar y cyd** – gallwch elwa drwy ymuno â chymdogion a chyfuno'ch pŵer prynu i gael gwell bargenion ar eich nwy a'ch trydan. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (DECC): www.decc.gov.uk

**Clybiau olew** – mantais ymuno â chlwb yw y gallant negodi â chyflenwyr i gael y pris gorau drwy swmp brynu olew gwresogi. Gall y clwb helpu eich llif arian drwy eich galluogi i archebu cyflenwadau llai 4 gwaith y flwyddyn ond byddwch yn dal i elwa ar brisiau swmp brynu. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Cyngor ar Bopeth: http://www.citizensadvice.org.uk/index/campaigns/oilclubs.htm



# Gwasanaethau arbennig

Os ydych wedi cyrraedd oed pensiwn, yn anabl, â salwch cronig neu â nam ar eich golwg / clyw, gallwch fanteisio ar Gofrestr Gwasanaeth â Blaenoriaeth (PSR) eich cyflenwr. Mae hyn yn rhoi hawl i chi gael gwasanaethau ychwanegol, gan gynnwys:

**Archwiliadau diogelwch am ddim ar eich offer nwy a thrydanol**
Bydd yr archwiliad hwn yn sicrhau bod eich offer yn ddiogel ac nad ydynt yn gollwng lefel uchel o garbon monocsid. Cynigir archwiliad blynyddol am ddim i berchen feddianwyr ar fudd-dal prawf modd sy'n byw ar eu pen eu hunain neu ag oedolion eraill sydd i gyd yn gymwys i gael y gwasanaeth am ddim neu sy'n byw ag eraill gydag o leiaf un ohonynt o dan 5 oed. Os oes yn rhaid diffodd y cyflenwad nwy am resymau diogelwch, ac os yw'r holl oedolion yn y cartref yn gymwys ar gyfer y Gofrestr Gwasanaeth â Blaenoriaeth, darperir cyfleusterau coginio a chynhesu eraill i gymryd lle rhai'r cwsmer.

**Symud y mesurydd i wella mynediad**
Os yw'n anodd darllen neu gael at y mesurydd nwy neu drydan, bydd cwmnïau ynni'n ystyried symud y mesurydd i leoliad mwy cyfleus, yn ddi-dâl.

**Cynllun diogelu â chyfrinair**
Gall cwmnïau a chwsmeriaid gytuno ar gyfrinair personol y bydd staff y cwmni'n ei ddefnyddio pan fyddant yn ymweld â chartref y cwsmer. Drwy wneud hyn bydd y cwsmer yn cael ei amddiffyn rhag galwyr ffug sy'n cymryd arnynt eu bod yn cynrychioli'r cwmni nwy / trydan.

**Darllen y mesurydd bob chwarter**
Dyma'r drefn arferol gan rai cwmnïau, ond os yw cwsmeriaid yn cael anhawster darllen eu mesurydd neu os ydynt yn poeni nad yw eu biliau'n ddigon cywir, gall y cyflenwr drefnu bod rhywun yn galw bob chwarter i ddarllen y mesurydd.

**Cynllun biliau enwebedig**
Gallwch wneud cais i'ch biliau gael eu hanfon i gyfeiriad ffrind, perthynas neu ofalwr fel y gallant hwy helpu i drefnu i'w talu.

**Rhybudd ymlaen llaw os bydd toriad yn eich cyflenwad**
Dylai cwmnïau fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall cwsmeriaid agored i niwed fod yn fwy dibynnol ar eu cyflenwad e.e. rhai sy'n ddibynnol ar drydan i weithio offer meddygol, a dylent wneud ymdrech arbennig i roi rhybudd ymlaen llaw i'r cwsmeriaid hyn os bydd toriad yn y cyflenwad.

**Gwasanaethau i gwsmeriaid â nam ar eu golwg neu eu clyw**
Gall cwmnïau ddarparu biliau Braille a llafar a rhaid iddynt hefyd gael cyfleusterau addas i ddelio â chwynion ac ymholiadau gan gwsmeriaid â nam ar eu golwg neu eu clyw.

Hefyd, mae cyflenwyr wedi'u gwahardd rhag datgysylltu unrhyw gwsmer sy'n gymwys am PSR yn ystod misoedd y gaeaf (1 Hydref - 31 Mawrth)..

# **Anhawster** talu eich biliau ynni



Os yw'ch bil yn annisgwyl o uchel, cysylltwch â'ch cyflenwr nwy neu drydan i ofyn iddynt ddarllen eich mesurydd neu rhowch chi ddarlleniad iddynt. Gall bil annisgwyl o uchel fod yn ganlyniad camddarllen y mesurydd, neu sawl bil sy'n seiliedig ar amcangyfrifon a ddilynir gan fil cywir. Bydd cyflenwyr ynni'n barod i'ch helpu i ddatrys yr anawsterau hyn ond ni fyddant yn gwybod am eich trafferthion oni bai eich bod wedi rhoi gwybod iddynt yn y lle cyntaf.

**Rheoli biliau ynni** –
yn ddibynnol ar eich cyflenwyr a'ch amgylchiadau, gallant eich helpu. Mae enghreifftiau'n cynnwys: ad-daliadau i rai cwsmeriaid a all fod yn gymwys os ydynt dros 60 oed, ar rai budd-daliadau neu ar incwm isel; arian oddi ar eich bil ynni; gwirio'ch hawl i fudd-daliadau i sicrhau bod y cwsmer yn cael yr holl fudd-daliadau gwladol a'r cronfeydd ymddiriedolaeth sy'n



cynnig grantiau i gwsmeriaid y mae ganddynt hawl iddynt, er enghraifft i ad-dalu dyledion neu i brynu offer newydd.

**Ad-dalu dyledion** – os ydych chi mewn dyled i'ch cyflenwr rhaid iddynt gynnig trefniadau ad-dalu sy'n ystyried eich amgylchiadau ariannol a'ch gallu i dalu. Er enghraifft, gallech ad-dalu eich dyled drwy'r Cynllun Tanwydd Uniongyrchol, os ydych yn cael y budd-daliadau canlynol: cymhorthdal incwm; lwfans ceisio gwaith; credydau pensiwn neu lwfans cyflogaeth a chymorth. Bydd swm penodedig yn cael ei dynnu bob wythnos o'ch budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'i drosglwyddo i'ch cyflenwr ynni.

**Osgoi Datgysylltu** – Os byddwch yn gadael i'ch biliau ynni godi a chodi, rydych chi'n wynebu'r risg o gael eich datgysylltu, sy'n golygu y bydd eich cyflenwr yn torri'ch cyflenwad ynni. Os ydych mewn perygl o gael eich datgysylltu, mae rheolau llym sy'n dweud pwy ellir a phwy na ellir eu datgysylltu. Ni allwch gael eich datgysylltu yn ystod y chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth os ydych o oed pensiwn ac yn byw ar eich pen eich hun neu'ch bod yn byw â rhywun arall o oed pensiwn neu o dan 18 oed. Os oes



pensiynwr yn byw gyda chi, dylech hysbysu eich cyflenwr ynni gan fod rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i beidio â'ch datgysylltu. Mae hyn yn wir hefyd os oes rhywun â salwch cronig neu sy'n anabl yn byw yn eich cartref.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o gytundeb gwirfoddol os byddwch yn prynu eich ynni gan unrhyw un o'r chwe chyflenwr mwyaf. Y rhain yw Nwy Prydain, Scottish and Southern Energy, E.ON, npower, EDF a ScottishPower. Mae pob un o'r cwmnïau hyn wedi cytuno i beidio â datgysylltu cyflenwadau trydan na nwy cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus yn fwriadol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Ystyrir bod rhywun mewn sefyllfa fregus os yw oedran, iechyd, anabledd neu ansicrwydd ariannol difrifol yn golygu na all ddiogelu ei les personol na lles aelodau eraill yr aelwyd.

Ni chewch eich datgysylltu:

- os oes gennych orchymyn rhyddhad rhag dyled;
- os oes arnoch arian i gyflenwr blaenorol;
- os ydych yn fethdalwr a bod y ddyled yn ymwneud â chyfnod cyn i chi fynd yn fethdalwr neu os nad yw'r ddyled yn ymwneud â'r nwy neu'r trydan a ddefnyddiwyd gennych ond am ryw wasanaeth neu offer arall a brynwyd gennych oddi ar y cyflenwr.

Mae help penodol ar gael i bobl sy'n wynebu cael eu datgysylltu neu sydd wedi cael eu datgysylltu. Ffoniwch Cyswllt Defnyddwyr i gael mwy o wybodaeth am hyn.



# Ble i **gael help**

- **Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes**

  Mae hon yn llinell gymorth genedlaethol am ddim sy'n cael ei rhedeg gan y chwe chyflenwr ynni mwyaf ar gyfer cwsmeriaid sy'n cael anhawster talu eu biliau tanwydd. Mae'n cynnig cyngor arbenigol ar fudd-daliadau, grantiau ar gyfer insiwleiddio'ch cartref am ddim, tariffau manteisiol a'r opsiynau talu arbennig a gynigir gan gyflenwyr ynni. Mae Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes ar agor rhwng 9am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 10am a 2pm ar Sadyrnau ac mae'r galwadau am ddim – ffoniwch **0800 33 66 99** neu ewch i'w gwefan yn **www.homeheathelpline.org.uk**

---

- **Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes**

  Mae cyflenwyr ynni yn cynnig ad-daliadau a chymorth o dan y cynllun hwn i rai o'u cwsmeriaid mwyaf bregus. Ffoniwch eich cyflenwr i weld a ydych yn gymwys, neu os ydych wedi bod i sesiwn Ynni - Y Fargen Orau, holwch y sawl oedd yn ei chynnal gan y bydd ganddynt hwy ragor o wybodaeth.



Mae gan y Llywodraeth gynlluniau hefyd i rai cwsmeriaid a all wneud ynni'n fwy fforddiadwy. Y prif rai yw:

- Mae'r **Taliad Tanwydd Gaeaf** yn daliad blynyddol i helpu pobl 60 oed a hŷn i dalu costau cadw'n gynnes yn ystod y gaeaf. Mae'r taliadau'n amrywio rhwng £125 a £400 yn ddibynnol ar amgylchiadau'r unigolyn. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch llinell gymorth y Taliadau Tanwydd Gaeaf ar **08459 15 15 15** neu ewch i **www.direct.gov.uk**
- Mae **Taliadau tywydd oer** yn helpu aelwydydd cymwys mewn ardal sydd wedi profi cyfnod o dywydd eithriadol o oer. Bydd taliad o £25 yn cael ei wneud yn awtomatig am bob cyfnod o saith diwrnod rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth os yw'r tymheredd lleol cyfartalog yn sero gradd Celsius neu is am saith diwrnod yn olynol. Yr aelwydydd cymwys yw rhai sy'n cael:
    - Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm neu Gredyd Pensiwn

    *ac o leiaf un o'r canlynol*

    - premiwm pensiynwyr, premiwm pensiynwyr uwch
    - premiwm mwy i bensiynwyr
    - premiwm anabledd, premiwm anabledd difrifol neu bremiwm plentyn anabl
    - os yw'r aelwyd yn cynnwys plentyn o dan 5 oed.

# Ble i gael help
# Parhad

- **Yn Lloegr**
  Gall Warm Front ddarparu pecyn o welliannau inswleiddio a gwresogi gwerth hyd at £3,500 (neu £6,000 os caiff technolegau olew, carbon isel neu ynni adnewyddadwy eu hargymell) i gartrefi cymwys. Am ragor o wybodaeth ffoniwch dîm Warm Front ar **0800 316 2805** neu ewch i **www.direct.gov.uk**

---

- **Yng Nghymru**
  Nyth yw cynllun Llywodraeth Cymru i helpu aelwydydd yng Nghymru i leihau eu biliau tanwydd. Gall Nyth gynnig amrywiaeth o gyngor a chymorth gan gynnwys cyngor ar sut i arbed ynni, cael help i wneud eich cartref yn fwy ynni effeithlon, gwirio'ch budd-daliadau i wneud yn siŵr eich bod yn cael yr holl incwm mae gennych hawl iddo, a chyngor ar reoli arian. Os ydych yn cael budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd ac yn byw mewn eiddo sy'n eiddo preifat neu sy'n cael ei rentu'n breifat ac os yw ei gyfradd effeithlonrwydd ynni'n F neu G gallwch fod yn gymwys hefyd i gael pecyn o fesurau i wella effeithlonrwydd ynni'ch cartref heb i chi orfod talu dim. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Nyth ar **08088 082 244** neu ewch i **www.nestwales.org.uk**

- **Yn yr Alban**

  Mae'r Energy Assistance Package yn cael ei ariannu gan Lywodraeth yr Alban ac mae'n cael ei reoli gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae'n rhoi cyngor a chymorth i helpu defnyddwyr i leihau eu biliau tanwydd ac i wneud cartrefi'n gynhesach / mwy cyfforddus. Am ragor o wybodaeth, gallwch gysylltu â hwy ar **0800 512 012** neu ewch i **www.energyassistancepackage.com**

  Mae'r Universal Home Insulation Scheme (UHIS) yn darparu mesurau effeithlonrwydd ynni i nifer fawr o aelwydydd yn yr Alban ac yn helpu i leihau allyriadau a helpu i leihau tlodi tanwydd. Gall gynnig inswleiddio atig a cheudod waliau, yn ddibynnol ar ble rydych yn byw. Mae'r cynllun yn cael ei redeg gan awdurdodau lleol mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol. I weld a ydych chi'n byw mewn ardal UHIS a'r hyn y gall UHIS ei gynnig i chi, ffoniwch yr Home Energy Scotland Hotline ar **0800 512 012**.

# Arbed arian drwy fod yn fwy **ynni effeithlon**

Gallwch wneud llawer o bethau i wneud eich tŷ'n fwy effeithlon o ran ynni - a fydd yn lleihau eich biliau ynni. Gallwch siarad â'ch cyflenwr ynni neu ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (**0800 512 012** neu **www.gov.uk/energyhelp**).

Awgrymiadau defnyddiol i arbed ynni:

1. Os oes gennych switsh amseru, gallwch ei osod fel bydd y gwres a'r dŵr poeth yn dod ymlaen pan fydd eu hangen yn unig: 30 munud cyn i chi godi yn y bore a gallwch ei osod fel y bydd yn diffodd 30 munud cyn i chi adael.
2. Gosodwch thermostat y silindr dŵr poeth ar 60 gradd Celsius neu 140 gradd Fahrenheit.
3. Tynnwch eich llenni gyda'r nos i atal gwres rhag dianc drwy'r ffenestri a chwiliwch am ddrafftiau o'r ffenestri a'r drysau.
4. Cofiwch ddiffodd goleuadau pan fyddwch yn gadael ystafell.
5. Peidiwch â gadael teclynnau mewn modd segur a chofiwch beidio â gadael gliniaduron a ffonau symudol yn y plwg gwefru'n ddiangen.
6. Pan fyddwch yn golchi, ceisiwch lenwi'r peiriant golchi dillad, y peiriant sychu dillad neu'r peiriant golchi llestri.



Mae un llond peiriant yn defnyddio llai o ynni na dau lwyth hanner llawn.

7 Ceisiwch beidio â berwi mwy o ddŵr na sydd ei angen arnoch.

8 Gall tap dŵr poeth sy'n diferu wastraffu digon o ynni mewn wythnos gyfan i lenwi hanner llond bath. Cofiwch drwsio tapiau sy'n diferu a gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u cau'n dynn.

9 Mae bylbiau golau arbed ynni yn para hyd at ddeg gwaith yn fwy na bylbiau arferol a gallwch arbed £45 dros oes y bwlb.

Gydag ychydig o ymdrech ac ymchwil, gallwch wneud yn siŵr nad ydych yn gwario mwy ar ynni na'r hyn sy'n rhaid

# Rhifau cyswllt
## cwmnïau cyflenwi ynni

| | |
|---|---|
| Nwy Prydain | 0800 072 8629 |
| Ebico | 0800 458 7689 |
| Ecotricity | 0800 030 2302 |
| EDF Energy<br>(gan gynnwys cwsmeriaid Seeboard a SWEB) | 0800 056 7777 |
| E.ON | 0345 059 9905 |
| First Utility | 0845 215 5000 |
| Good Energy | 0845 456 1640 |
| Green Energy | 0800 783 8851 |
| Loco2energy | 0845 074 3601 |
| npower | 0800 073 3000 |



| | |
|---|---|
| OVO Energy | 0800 599 9440 |
| Scottish Hydro | 0800 980 2472 |
| ScottishPower | 0800 027 0404 |
| Scottish & Southern Energy<br>(gan gynnwys cwsmeriaid Equigas/Equipower, Atlantic, Severn Trent Energy, Southern Electric) | 0845 026 0658 |
| Spark Energy | 0845 034 7474 |
| SWALEC | 0845 026 0656 |
| Telecom Plus (gan gynnwys Utility Warehouse) | 0844 815 7777 |
| The Co-operative Energy | 0800 954 0693 |
| Utilita | 0845 450 4357 |

Gall y chwe phrif gwmni cyflenwi ynni (British Gas; EDF Energy; E.ON; Npower; ScottishPower a Scottish & Southern Energy) ddarparu gwasanaeth cyfieithu proffesiynol os nad Saesneg yw'ch iaith gyntaf. Ffoniwch eich cyflenwr a dywedwch wrthynt yr hoffech gael y gwasanaeth hwn, neu os oes aelod o'r teulu neu ffrind yn dymuno'i ddefnyddio - er mwyn gallu cyfathrebu'n hyderus â'r cyflenwr.

**Gweler ein fideos cynghori ar-lein yn:**
www.financialskillsforlife.org.uk/fsfl_projects_energybestdeal.htm

Mae Ynni - y Fargen Orau yn ymgyrch i ddefnyddwyr sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor ar Bopeth a'u partneriaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n gyfle i ddefnyddwyr ynni domestig a gweithwyr cynghori rheng flaen (gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr) i fynychu sesiwn wybodaeth ar gael bargen well ar eu biliau ynni. Mae Ofgem wedi cefnogi'r ymgyrch ers ei lansio yn 2008, a hynny ar ôl ariannu'r cynllun peilot.

Mae ymgyrch Ynni – y Fargen Orau 2012/13 yn cael ei hariannu gan British Gas; EDF Energy; E.ON; ScottishPower; Scottish a Southern Energy

ofgem

**www.ofgem.gov.uk**

cyngor ar bopeth

citizens advice bureau

**www.citizensadvice.org.uk**